Taflen Gyngor Iechyd a Diogelwch 17:

SYSTEMAU PWYSEDD

CEFNDIR

Os bydd offer pwysedd yn methu ar waith, gall anafu pobl gerllaw'n ddifrifol neu ei lladd ac achosi difrod difrifol i eiddo. Ym Mhrydain, mae tua 150 digwyddiad peryglus bob blwyddyn lle mae gollyngiadau anfwriadol o'r fath. Mae rhyw chwech o'r rhain yn arwain at anaf angheuol neu ddifrifol.

Y GYFRAITH

Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000

BETH SYDD ANGEN I MI WNEUD I GYDYMFFURFIO?

Lle bo'r rheoliadau hyn yn berthnasol, yna rhaid i chi wneud y canlynol (dyfynnwyd o *Systemau Pwysedd – Diogelwch a chi INDG261(rev1))*:

- Dewis rhywun cymwys (h.y. rhywun gyda'r wybodaeth, profiad, gallu ymarferol a hyfforddiant angenrheidiol (KEPT) – peiriannydd yswiriant fel arfer).
- Penderfynu beth yw terfynau gweithredu diogel y cyfarpar;
- Darparu offer diogel ac addas (h.y. wedi'i osod yn gywir ac ati);
- Gwybod beth yw'r amgylchiadau gweithredu (h.y. nwy, ager, hylif yn y llestr);
- Gosod dyfeisiau amddiffynnol addas a sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol (dylai hyn fod eisoes yn rhan o'r cyfarpar ar y safle – os nad yw, dylech gadarnhau gyda'r gwneuthurwr a / neu eich yswiriwr);
- Cynnal a chadw'n addas (h.y. archwiliadau gweledol);
- Darparu ar gyfer hyfforddiant priodol (h.y. gweithredwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel);
- Cael archwilio'r cyfarpar (h.y. cynllun archwilio ysgrifenedig).

Yn nodweddiadol byddai'r cynllun ysgrifenedig yn cwmpasu'r canlynol:

- Rhif adnabod y darn o gyfarpar neu'r rhannau i'w harchwilio;
- Natur yr archwiliad sydd ei angen;
- Gwaith paratoadol i alluogi archwilio'r eitem yn ddiogel;
- Pennu pa archwiliad sydd ei angen cyn defnyddio'r system am y tro cyntaf;
- Y cyfnod hwyaf rhwng un archwiliad a'r nesaf;

- Dylai rhywun cymwys archwilio rhannau hollbwysig y system ar ôl eu haddasu ac ati cyn defnyddio'r system eto;
- Enw'r unigolyn cymwys sy'n cadarnhau'r cynllun archwilio ysgrifenedig; a
- Dyddiad y dystysgrif.

RHAGOR O GYFARWYDDYD

- Systemau Pwysedd – Diogelwch a chi (INDG261(rev1)) HSE
- Cynlluniau Archwilio Ysgrifenedig (INDG178) HSE
- Defnyddio Silindrau Nwy'n Ddiogel (INDG308) HSE
- Taflenni am ddim HSE: www.hse.gov.uk